



Newsletter

Greener Aberystwyth Group

www.aber-gag.org.uk

No. 5 July 2009

Editor: Laurie Wright

Fire Damage at Bronpadarn!

We were very dismayed to learn that in early July trees adjacent to the building works at Bronpadarn had been burned. It was a condition of the planning consent for the development at this site that these trees, including palms and an old rare *ginkgo biloba*, were given special protection from damage. We understand that following representations by concerned local residents the Ceredigion Council Planning Enforcement Officer is now investigating.



Leaflet Published

The leaflet publicising GAG activities, anticipated in the last Newsletter, was published in June. The colourful, bilingual, design by Nicola Butler unfolds to show a map highlighting some of the *Green Spaces of Aberystwyth*, with the invitation to *visit them, enjoy them, protect them*. Following an initial circulation to the Library, Tourist Information Office, Town Hall and Leisure Centre and local schools for pupils to take home, the comments received have been very complimentary, but please *let us know what you think*. We now aim to distribute the leaflet widely throughout the town, but need *your help*. The vision of your Committee is that every household in town should be made



aware of the importance of the trees, grassland and wildlife habitats in our midst. The production and printing of the leaflet has been part-funded by grants from the Aberystwyth Town Council and Communities First. However, the cost of mailing or the distribution of the leaflet by a commercial firm is far beyond our budget. ***Are you willing help in a practical way by posting leaflets through letterboxes in your area of town? If you can spare a little time to help us promote the green spaces of Aberystwyth in this way, please let us know at post@aber-gag.org.uk.***

Llanbadarn Road Cemetery

The County Council is looking ahead to the future management of the Llanbadarn Road cemetery, a significant green space in the town. GAG has offered to help draft a plan, which will take into account the important social, historical and wildlife interests. Various surveys are being carried out for the plan, which should be ready to present to the Council by the autumn.



New Trees

The trees planted outside the new WAG and Ceredigion Council offices in Boulevard St Brieuc have attracted some criticism in the press. GAG is still pressing for an overall landscaping and tree-planting plan for the entire length of Aberystwyth's 'prestigious gateway route' (to quote the Masterplan) from the Parcyllyn roundabout to the town centre.

We welcome the Council's kerb protection constructed recently around the street trees in Iorwerth Avenue and also the new ginkgo, planted at the junction of North Road and Northgate Street, is a major improvement at this prominent location. We also commend the new planting of fastigate aspen trees by the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales, below the car park at the Crown Buildings in Plascrug; another instance where GAG, in liaison with the Cardiganshire Horticultural Society, was able to offer specific expertise in giving advice.



Llwyn yr Eos School

During April volunteers from GAG planted 51 young trees in the school grounds, including oak, birch, cherry, horse chestnut, rowan, crab apple and wild pear. Thanks go to those who donated some of the trees, with the remainder being purchased from Ystwyth Trees, Pontrhydygroes. Communities First kindly provided a grant to cover the cost of the stakes and the tubes that give added protection to the saplings.

Access to Green Spaces

Following the Survey and Inventory of Green Spaces in Aberystwyth that was carried out by GAG in 2007, we now intend to carry out what is called an accessibility check. The study will investigate how easy it is for people, young and old, fit and disabled, to reach and enjoy our green spaces. We plan to start during the summer with a small sample, testing out how best to do the survey. If you would like to help, please contact us.

Playscheme for 8-11yr olds

A 5 day Summer Playscheme is being held on the Pendinas & Tanybwllch Local Nature Reserve in Aberystwyth. Led by two experienced artists, Lynne Denman from Creu-ad and Maggie Fearn (Forest Schools), there will be 2 x 2hr creative play workshops for 8-11yr olds on July 22nd, 31st, and August 7th, 12th and 19th. The workshops are free; bookings and details from Lynne on 01570 480818 (e-mail: ygododdin@googlemail.com).

(English overleaf)

Grŵp Aberystwyth Gwyrddach

Cylchlythr



Rhifyn 5 Gorrffennaf 2009

Golygydd: Laurie Wright

Greener Aberystwyth Group

www.aber-gag.org.uk

Coed Bronpadarn wedi eu llosgi!



Trist iawn oedd clywed ddechrau Gorrffennaf bod coed sy'n agos i'r gwaith adeiladu yn Bronpadarn wedi eu llosgi. Un o amodau'r caniatad cynllunio i'r safle oedd bod y coed, gan gynnwys palmwydd a *ginkgo biloba* hen a phrin, y cael eu gwarchod yn arbennig. Deallwn fod Swyddog Cyngor Ceredigion yn ymchwilio, ar ôl cwynion gan

drigolion lleol.

Taflen GAG

Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd taflen ddwyieithog lliwgar sy'n tynnu sylw at weithgareddau GAG (gw. Cylchlythr 4). Fe gafodd ei chynllunio gan Nicola Butler, ac mae'n agor allan i ddangos map sy'n amlygu rhai o *Wyrddfannau*



Aberystwyth, gyda gwahoddiad i *ymweld â nhw, eu mwynhau a'u gwarchod*. I gychwyn, anfonwyd copïau i'r Llyfrgell, y Swyddfa Dwristiaeth, Neuadd y Dref a'r Ganolfan Hamdden, hefyd i ysgolion lleol fel bod plant yn mynd adref â thafleni. Mae sylwadau wedi bod yn ffafriol iawn, ond *gadewch i ni wybod beth ydych chi'n feddwl*. Ein bwriad nawr yw dosbarthu'r daflen yn eang dros y dref, ond rydym ni angen eich cymorth. Dymuniad eich Pwyllgor yw gwneud pob aelwyd yn y dref yn ymwybodol o bwysigrwydd coed, gwelltglas a bywyd

gwyllt i ni. Roedd grantiau gan Cyngor Tref Aberystwyth a'r rhaglen *Cymunedau yn Gyntaf* yn talu rhan o gostau'r gwaith cynllunio ac argraffu. Eto, mae cost dosbarthu'r daflen trwy'r post neu ddsbarthwr masnachol ymhell tu hwnt i'n adnoddau. A ydych chi'n fodlon ein helpu trwy roi tafleni trwy flychau llythyrau yn eich rhan o'r dref? Os gallwch roi ychydig o'ch amser i'n helpu i hyrwyddo gwyrddfannau Aberystwyth, *gadewch i ni wybod*, os gwelwch yn dda, ar post@aber-gag.org.uk.

Mynwent Ffordd Llanbadarn

Mae'r Cyngor Sir yn ystyried sut i reoli mynwent Ffordd Llanbadarn, un o wyrddfannau pwysig y dref, yn y dyfodol. Mae GAG wedi cynnig cymorth i amlinellu cynllun fydd yn



rhoi sylw i faterion cymdeithasol a hanesyddol pwysig, ac i'r bywyd gwyllt. Mae amrywiol arolygon yn cael eu gwneud ar gyfer y cynllun, a gobeithir eu cyflwyno i'r Cyngor erbyn yr Hydref.

Coed Newydd

Bu'r coed tu allan i swyddfeydd newydd y Cynulliad a Chyngor Ceredigion yn Boulevard de St Brieuc yn destun beirniadaeth yn y wasg. Mae GAG yn gofyn am gael cynllun tirlunio a phlannu coed ar gyfer 'y brif ffordd fewn i Aberystwyth' fel cyfanwaith, o gylchfan Parcyllyn i ganol y dref. Rydym yn croesawu'r paneli amddiffynnol y mae'r Cyngor wedi eu gosod yn ddiweddar o gwmpas coed yng Nghoedlan Iorwerth; hefyd mae'r goeden ginkgo newydd, sy wedi ei phlannu wrth groesfan Heol y Gogledd a Northgate Street, yn gwella golwg y safle yma. Rydym hefyd yn cymeradwyo'r aethnennau pigfain sy wedi cael eu plannu gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, islaw maes parcio Adeiladau'r Goron Plascrug; enghraifft arall lle mae GAG, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Arddwrol Sir Aberteifi, yn gallu cynnig cyngor arbenigol.



Ysgol Llwyn yr Eos

Ym mis Ebrill, bu gwirfoddolwyr GAG yn plannu 51 coeden ifanc ar dir yr ysgol, gan gynnwys coed derw, bedw, ceirios, castan y meirch, criafol, afal bach sur a phersen wyllt. Rhaid diolch i'r rhai a roddodd rai o'r coed; prynwyd y lleill gan Goed Ystywyth, Ponrhydygroes. Rhoddodd Cymunedau yn Gyntaf arian i dalu am stanciau a thiwbiau i amddiffyn y glasbrennau.

Gwyrddfannau o Fewn Cyrraedd

Yn dilyn Arolwg Gwyrddfannau Aberystwyth a wnaeth GAG yn 2007, rydym yn bwriadu gwneud Arolwg Hygyrchedd ("Accessibility Check") fel y'i gelwir. Bydd yr astudiaeth yn ymchwilio pa mor hawdd y mae pawb, hen ac ifanc, heini ac anabl, yn gallu cyrraedd a mwynhau ein gwyrddfannau. Bwriadwn gychwyn yn ystod yr haf yma gyda sampl fach, i brofi'r ffordd orau o wneud yr arolwg. Os hoffech chi helpu, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Gweithdai i Blant 8-11 Oed

Cynhelir cyfres o 5 gweithdy yng Ngwarchodfa Natur Leol Pendinas a Thraeth Tan-y-bwlch, Aberystwyth, o dan arweiniad 2 artist brofiadol, Lynne Denman (o gwmni Creuad) a Maggie Fearn (Forest Schools). Bydd 2 weithdy o 2 awr yr un mewn chwarae creadigol, ar gyfer plant 8 i 11 oed, ar Orffennaf 22 a 31, ac ar Awst 7, 12 a 19, yn rhad ac am ddim. Gellir cael manylion a chofrestru plant trwy gysylltu â Lynne ar 01570 480818 (e-bost: ygododdin@googlemail.com).